# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

September 2022

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello

Welcome to the Lisvane & Llanishen Reservoirs Autumn Newsletter.

In this newsletter you can find out about the progress we've been making on site as well as our community engagement activities that have been happening throughout the summer.

## Visitor Hub starts to take shape!

It's been a busy couple of months since we last wrote to you, and our site is starting to look very different to how it did three months ago.

Working with local contractor BECT, we have completed constructing the below ground elements of the building and have nearly finished the framework for the buildings – you can see the work we have done between March and August by scanning the QR code below.

Over the next few weeks, work will be starting on the internal structure of the building. We will also be carrying out some further work to the access road off Lisvane Road, so you may notice an increase in activity in this area.

Our work is not just limited to the construction of the new building, we have also been busy working with contractors to make the whole site accessible for the public and creating conservation zones to protect the site's wildlife and ecology.

Throughout the summer, our contractors Knights Brown and Harlestone have been installing our brand new fencing and footpaths around the reservoirs. This work will be completed by the end of the Autumn.

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Scan to see the time lapse video of our work in progress.

Thanks to the Welsh Government ENRaW grant, the footpaths will be enable the public to enjoy walks around the reservoirs, whilst protecting the grassland that has been designated as a SSSI for waxcap fungi.

All of the work on site is being carried out under the supervision of an Ecological Clerk of Works to ensure minimal disruption to the local environment and the site's ecology.

If you would like regular updates about our work visit dwrcymru.com/inyourarea and click the follow button at the bottom of the page. Here, you can also find information about our contractors and their working hours.

## Opening the new Visitor Hub

Many of you have been asking us when the reservoirs will be opened for the community to enjoy. Our teams are currently working hard to complete the visitors hub as soon as possible. At the moment, we are planning to open during Spring 2023.

However, this will be dependent on the progress we make during the winter months and the weather challenges that we face – keep an eye on our website and social media channels for more updates closer to the time.



Photo taken 17th May 2022



Photo taken 5th September 2022

Dŵr Cymru
Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 | dwrcymru.com

# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

## Community Engagement

In May we were delighted to welcome visitors to the reservoirs during the community week organised as part of the Welsh Government and National Lottery Heritage Community Woodlands fund.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

The community week gave us a chance to showcase the work that we had completed to date. The ranger team explained the work undertaken to enhance and regenerate the woodland, whilst explaining the ecological sensitivities and the measures we are a taking to balance opening to the public and preparing areas of sanctuary for Cardiff's wildlife.

During the week we were joined by members of Friends of Cardiff Reservoirs, Friends of Nant Fawr, Rhiwbina Nos WI, local Councillors and Jenny Rathbone MS, as well as a Cardiff University student who supported the week as part of his placement.

We would like to give a big thank you to Dr Dylan Adams from Cardiff Metropolitan University, who has been supporting school visits to the reservoirs helping young people become more aware of nature on their doorstep. During the week we were joined by pupils from Ton Yr Ywen Primary, Ysgol Y Wern and Christ the King Catholic Primary.

The young people enjoyed exploring the woodland thinking about all the nature around them. They then filled the woodland with their musical compositions, inspired by woodland life – it was fantastic to see the education zone come to life.



## Welcome to the team

In August we welcomed our new Attraction Manager, James Griffith, to the Welsh Water Visitor Attractions team. James has been busy familiarising himself with the reservoirs and community including meeting the Friends of Cardiff Reservoirs Committee. Over the next few months he will be busy recruiting and training the team who will be based at the new Visitor Hub.

## Woodland Management

As we move into Autumn, we will be picking up on our woodland management work. This season we will be concentrating on our ancient woodland, Gwernybendy Woods.

Control and removal of non-native species will be our top priority. These species, that are not natural to our UK woodlands, threaten to dominate and prevent our native wildlife and nature from flourishing. We will keep you updated with progress and hopefully be reporting encouraging signs of natural regeneration in the Spring.

## Congratulations to ACT Learners!

A big congratulations to ACT Training Learners who were able to come back to the reservoirs and be presented with their Agored certificates by Seb from Down to Earth Projects.

The learners had previously participated in the training programme to construct the roundhouse, all who engaged completed and past the module. During the presentation learners commented on the skills and knowledge they had gained and how proud they were of the end product.

The training programme was funded and delivered as part of the Welsh Government ENRaW grant.



## Volunteering

Many thanks to Ruperra Conservation Trust who welcomed us and volunteers from Friends of Cardiff Reservoirs in July.

An activity was organised to harvest native bluebell seeds, which will soon be sown around the reclaimed ponds at the reservoirs.

Whilst there we also learnt about the fantastic work that has taken place to conserve and restore the ancient woodland.

If you are interested in volunteering at the reservoirs, please contact the Friends of Cardiff Reservoirs via their website: www.friendsofcardiffreservoirs.org



# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

Medi 2022

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo 'na

**Croeso i Newyddlen Hydref Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien.**

**Yn y newyddlen hon, fe glywch sut mae'r gwaith yn mynd ar y safle, ac am ein gweithgareddau i gysylltu'r cyhoedd sydd wedi bod yn digwydd trwy gydol yr haf.**

## Yr Hyb Ymwelwyr yn dechrau siapio!

Mae'r misoedd ers i ni ysgrifennu atoch ddiwethaf wedi bod yn brysur, ac mae ein safle'n dechrau edrych yn wahanol iawn i fel yr oedd dri mis yn ôl.

Gan weithio gyda'r contractwr lleol, BECT, rydyn ni wedi gorffen adeiladu elfennau'r adeilad sydd dan y ddaear, ac rydyn ni'n agos at gwblhau fframwaith yr adeiladau – gallwch weld y gwaith sydd wedi cael ei wneud rhwng Mawrth ac Awst trwy sganio'r cod QR isod.

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn ni'n dechrau adeiladu strwythur mewnol yr adeilad. Byddwn ni'n cyflawni gwaith pellach ar y ffordd fynediad oddi ar Heol Llys-faen, felly mae'n bosibl y sylwch chi fod mwy o fynd a dod yn yr ardal.

Nid yw ein gwaith yn gyfyngedig i adeiladu'r adeilad newydd, rydyn ni wedi bod yn brysur hefyd yn gweithio gyda'r contractwr i wneud y safle cyfan yn hygyrch i'r cyhoedd, ac yn creu parthau cadwraeth i amddiffyn bywyd gwyllt ac ecoleg y safle.

Trwy gydol yr haf, mae ein contractwyr, Knights Brown a Harlestone, wedi bod yn codi ein ffensys ac yn gosod ein llwybrau cerdded newydd sbon o amgylch y cronfeydd. Caiff y gwaith yma ei gwblhau erbyn diwedd yr Hydref.

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Sganiwch i weld fideo treigl amser o'r gwaith yn datblygu.

Diolch i grant ENRaW Llywodraeth Cymru, bydd y llwybrau cerdded yn caniatáu i'r cyhoedd fwynhau mynd am dro o gwmpas y cronfeydd, wrth amddiffyn y glaswelltir sydd wedi cael ei ddynodi'n SoDdGA oherwydd ei ffwng cap cwyr.

Mae'r holl waith ar y safle'n cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol er mwyn sicrhau ei fod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol ac ar ecoleg y safle.

I gael diweddariadau rheolaidd am ein gwaith, ewch i dwrcymru.com/yneichardal a chlicio ar y botwm dilyn ar waelod y dudalen. Yma fe ffeindiwch chi wybodaeth am ein contractwyr a'u horiau gwaith hefyd.

## Agor yr Hyb Ymwelwyr newydd

Mae llawer ohonoch wedi bod yn gofyn pryd bydd y cronfeydd yn agor i'r gymuned eu mwynhau. Mae ein timau'n gweithio'n galed i gwblhau'r hyb ymwelwyr cyn gynted â phosibl. Ar hyn o bryd, ein bwriad yw agor yng Ngwanwyn 2023.

Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu sut mae pethau'n mynd dros fisoedd y gaeaf a'r sialensiau a fydd yn ein hwynebu o ran y tywydd – cadwch lygad ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau pellach yn nes at yr amser.


Llun a dynnwyd 17 Mai 2022


Llun a dynnwyd 5 Medi 2022

Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 | dwrcymru.com

# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

## Cyswllt â'r Gymuned

Ym mis Mai, roedd hi'n bleser croesawu ymwelwyr i'r cronfeydd yn ystod yr wythnos gymunedol a drefnwyd trwy gronfa Coedwigoedd Cymunedol Llywodraeth Cymru a Threftadaeth y Loteri Genedlaethol.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Rhoddodd yr wythnos gymunedol gyfle i ni ddangos y gwaith roeddem ni wedi ei gwblhau hyd hynny. Esboniodd tîm y gofalwyr y gwaith oedd wedi cael ei gyflawni i gyfoethogi ac adfywio'r coetir, wrth esbonio'r ecoleg y mae angen ei amddiffyn a'r mesurau rydym yn eu cymryd i gydbwyso agor y safle i'r cyhoedd â pharatoi ardaloedd o loches ar gyfer bywyd gwyllt Caerdydd.

Yn ystod yr wythnos, daeth aelodau o Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, Cyfeillion Nant Fawr, Rhiwbeina Nos WI, Cynghorwyr lleol a Jenny Rathbone AS, i ymuno â ni yn ogystal â'r myfyriwr o Brifysgol Caerdydd a fu'n cynorthwyo'r wythnos yn rhan o'u lleoliad gwaith.

Hoffem ddiolch o galon i Dr Dylan Adams o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, fu'n hwyluso ymweliadau ysgolion â'r cronfeydd er mwyn helpu pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'r byd natur yn eu milltir sgwâr. Yn ystod yr wythnos, daeth disgyblion o Ysgol Gynradd Ton yr Ywen, Ysgol y Wern ac Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin draw i'r safle.

Cafodd y bobl ifanc fodd i fyw yn crwydro'r coetir yn mwynhau'r holl natur o'u cwmpas. Fe lenwon nhw'r goedwig â'u cyfansoddiadau cerddorol wedi eu hysbrydoli gan fywyd y goedwig – roedd hi'n hyfryd gweld y parth addysg yn llawn bywyd.



## Croeso i'r tîm

Ym mis Awst, croesawyd Rheolwr Atyniad newydd, James Griffith, i dîm Atyniadau Ymwelwyr Dŵr Cymru. Mae James wedi bod wrthi'n brysur yn ymgyfarwyddo â'r cronfeydd a'r gymuned, gan gynnwys cwrdd â Phwyllgor Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd. Dros y misoedd nesaf, bydd James yn brysur yn recriwtio ac yn hyfforddi'r tîm a fydd yn gweithio yn yr Hyb Ymwelwyr newydd.

## Rheoli'r Goedwig

Wrth i'r hydref nesáu, byddwn ni'n prysuro ein gwaith i reoli'r goedwig. Y tymor hwn, byddwn ni'n canolbwyntio ar ein hen goetir, Coedwig Gwernybendy.

Rheoli a chlirio rhywogaethau estron fydd ein blaenoriaeth bennaf. Mae'r rhywogaethau hyn, nad ydynt yn naturiol i goedwigoedd y DU, yn bygwth dominyddu ein bywyd gwyllt a'n natur frodorol rhag llewyrchu. Byddwn ni'n rhannu unrhyw ddatblygiadau â chi, a'r gobaith yw y gallwn roi gwybod i chi am unrhyw arwyddion o adfywiad naturiol pan ddaw'r gwanwyn.

## Llongyfarchiadau i Ddysgwyr ACT!

Llongyfarchiadau mawr i ddysgwyr ACT a ddaeth nôl i'r cronfeydd dŵr er mwyn i Seb o Down to Earth Projects gyflwyno'u tystysgrifau Agored iddynt.

Roedd y dysgwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi i adeiladu'r tŷ crwn, a llwyddodd pawb a gymerodd ran yn y modiwl. Yn ystod y cyflwyniad, soniodd y dysgwyr am y sgiliau a'r wybodaeth roeddent wedi eu datblygu, a pha mor falch oedden nhw ar y cynnyrch terfynol.

Cafodd y rhaglen hyfforddi ei hariannu a'i chyflawni yn rhan o grand ENRaW Llywodraeth Cymru.



## Gwirfoddoli

Diolch i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra am ein croesawu ni a gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd ym mis Gorffennaf.

Trefnwyd gweithgaredd i gynaeafu hadau clychau'r gog frodorol, a gaiff eu hau o amgylch y pyllau a adferwyd yn y cronfeydd cyn bo hir.

Fe ddysgon ni hefyd am y gwaith bendigedig sydd wedi cael ei wneud i gynnal ac adfer y coetir hynafol.

Os oes diddordeb gennych wirfoddoli yn y cronfeydd, cysylltwch â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd trwy eu gwefan.
www.friendsofcardiffreservoirs.org




Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 | dwrcymru.com